# SICRWYDD O BETHAU Y GOBEITHIR AMDANYNT

Llythyr Bugeiliol at Deulu Asaph gan yr Esgob
Tymor y Drindod 2022

“Credaf yn Nuw Dad, Hollgyfoethog” ddywedwn ni wrth inni adrodd y credo yn ein haddoliad, a’r cyntaf yn ein hymadroddion ffocws esgobaethol ydy “Tyfu Ffydd”. Mae’n debyg mai ffydd ydy’r sylfaen o’r hon y llifa holl ddisgyblaeth Gristnogol. Tybed sut ydyn ni’n asesu ein ffydd ein hunain - ydy hi’n gryf, neu a ydy hi’n wan? A ydyn ni’n sicr, yn hyderus, yn ein gobaith o fywyd tragwyddol, neu a oes ganddon ni amheuon am yr holl beth?

Y peth cyntaf sydd raid inni’i ddatgan ydy nad Ffydd yn un peth â chredo. Ceir sylw ar hyn yn Llythyr Iago yn y Testament Newydd: “Yr wyt ti'n credu bod Duw yn un. Da iawn! Y mae'r cythreuliaid hefyd yn credu hynny, ac yn crynu!” (Iago 2.19) Yn hytrach, daw Ffydd i’r golwg pan fod credo ac ymddiriedaeth yn llifo’n un. Medraf gredu fod trên am 0958 o’r gloch i Lundain o’r Rhyl – dwi’n trystio fod yna un pa fyddaf yn sefyll ar y platfform yn disgwyl amdano – ond dydy e ddim bob amser yn ymddangos! Felly, bod â ffydd ydy credu ac ymddiried, i gymryd erthyglau’r credo a’u cymhwyso nhw i fywyd. Fel yr ysgrifenna awdur y Llythyr at yr Hebreaid: “Yn awr, y mae ffydd yn warant o bethau y gobeithir amdanynt, ac yn sicrwydd o bethau na ellir eu gweld.” (Hebreaid 11.1)

Yr ail beth sydd i’w ddweud ydy nad ydy bod yn berchen â ffydd yn cael gwared â phob amheuaeth. Nid amheuaeth ydy’r gwrthwyneb i ffydd, ond anobaith. Mae’r credo yn hir ac yn llawn ymadroddion hynafol, efallai nad ydy rhai ohonyn nhw’n golygu fawr ddim ichi. Mae’n bosib eich bod yn anghytuno’n frwd ag ambell un, ac mae hynny’n iawn, cyn belled â’ch bod yn gallu bod yn onest â Duw. Wrth inni adrodd y credo, rydyn ni’n uniaethu â chenedlaethau o gredu ac yn datgan ffydd y gymuned. Fodd bynnag, a bod yn onest, mae’n bosib inni dreulio oes gyfan yn ceisio gweithio allan beth yn union ydy ein hargyhoeddidau. Yn hytrach, y parodrwydd i gyd-deithio â ffydd y gymuned, y parodrwydd i ddweud, “Dyma’r ddamcaniaeth weithredol, ar yr hon rydw i’n fodlon seilio fy mywyd”, sydd o bwys. Mae’n bosib fod ganddon ni amheuon, ond wrth inni beidio â rhoi’r gorau iddi a digalonni na wnawn ni fyth symud ymlaen, wrth inni weithredu yn y gobaith ei fod yn debygol o fod yn wir, mae hynny’n ddigon i Dduw.

Ceir hanesyn bach yn yr Efengylau (Marc 9), lle gwelir tad yn crefu am i’w fab gael ei iacháu. “Os wyt ti’n gallu gwneud unrhyw beth,” meddai, “trugarha a helpa ni.” Mae Iesu yn bachu’n syth ar ei ymadrodd. “Os wyt ti’n gallu!”atebodd, “Mae popeth yn bosib i rywun sy’n credu.” Mae ymateb y tad yn ddiddordol a gonest: “Mi rydw i’n credo, helpa fi yn fy anghrediniaeth!” Mae’n cael derbyn ei wyrth. Dysgodd fy athro diwinyddiaeth imi gael “silff uchaf diwinyddiaeth”, rhywle y gallwn osod pob penbleth mawr fy ffydd, a’u gadael nhw yno nes y deuai, rhyw ddydd, sgwrs, llyfr neu brofiad a fyddai’n taflu goleuni arnyn nhw, a’u datrys. Ymddiriedaeth ydy rhoi ei llaw yn llaw Duw, a dweud “Dwi’n fodlon mentro”, i weddïo o flaen Iesu: “O tyrd i ‘nghalon, Arglwydd Iesu, mae lle yn fy nghalon i Ti.”

Gan ein bod bellach yn medru dweud beth ydy Ffydd, medrwn ymrwymo’n hunain i’w dyfu. Mae ein ffydd yn tyfu wrth inni’i bwydo. Fe fydd gweithredoedd bach dyddiol o ffydd yn ei chynyddu, felly hefyd amseroedd gweddi, a chwmni cyd-Gristnogion ar y daith. Mae Duw’n ein cyrraedd ni trwy’r holl sianelau hyn, a pho fwyaf o amser a dreuliwn ni gyda Duw, po fwyaf y bydd ein ffydd, a’n dealltwriaeth, yn tyfu.

Fe ddylen ni hefyd fod yn barod i hau hadau’r ffydd yn eraill, gan eu gwahodd i ddeall pam fod ein Ffydd yn werthfawr a’r hyn mae Duw’n ei wneud droston ni. Wrth wraidd calon Cristnogaeth mae yna Dduw sy’n ein caru gymaint fel ei fod yn ein derbyn, ac yn cymryd baich ein dieithrwch a’n hanufudd-dod ar ei ysgwyddau’i hun. Ac fe gawn ein croesawu, bawb ohonon ni, am iachâd, am obaith, ac am iachawdwriaeth.

Felly, rydw i’n eich gwahodd chi, mae’r esgobaeth yn eich gwahodd, i agor eich calonnau i’r pethau rydych chi’n credu ac yn ymddiried all drawsnewid ein byd, ac ym muddugoliaeth Iesu, sy’n gwneud popeth yn bosib. Diolch bo i Dduw. Amen.